# Ymchwiliad ddwfn i tlodi bwyd yn y DU

## Cyflwyniad


Ers Mis Mawrth 2021, rydym wedi bod yn gweithio ynghyd a Well-Fed, Cyngor Sir Y Fflint a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn a hefyd yn cael cefnogaeth cyson gan Theatr Clwyd, fel rhan o brosiect sy'n cynrychioli y lleisiau a straeon o gymunedau yng Ngogledd Cymru sydd yn / neu sydd wedi byw mewn ansicrwydd bwyd.

Mae'r prosiect wedi'w dorri lawr i mewn i nifer o adrannau ers y sgyrsiau cychwynol llynedd, dechreuodd ein  cyfnod o ymgysylltu cymunedol ym mis Mawrth eleni. Rydym wedi gwario bron i 3 mis yn gweithio efo nifer o grwpiau led-led Sir Y Fflint a'r siroedd cyfagos, yn hybu trafodaeth agored a sgyrsiau am stigma, camsyniadau a problemau cymdeithasol a gwleidyddol cyfoes. Fel rhan o'r cyfnod ymchwil yma, cyhoeddwyd holiadur ar wefannau cymdeithasol efo'r bwriad o gael darlun lletach o pa wybodaeth sydd gan bawb o amryw gefndiroedd am dlodi bwyd.

Mae'r daflen wybodaeth yma mewn ymateb i'r holidaur hwnnw.. Rydym wedi hel atebion pob cwestiwn, fydd yn cael eu dangos isod ar ffurd graffiau a dyfyniadau uniongyrchol wedyn hel ymchwill a all gynnir mewnwelediad pellach i'r ardal benodol yna o'r mater.
Ar y mwyafrif rydym wedi uwcholeuo beth rydym ni'n gredu yw'r prif bwyntiau i bobl ystyried, ond rydym yn eich annog chi i wneud ymchwil eich hunain ac i gysylltu'n gymdeithasol ar raddfa ehangach. .
Trwy gydol y ddogfen hon mae ymchwil pellach, erthyglau, adroddiad ayb wedi eu hatodi, ddim ond er mwyn cefnogi beth rydym yn ei ddweud ond fel ei fod yn rhwydd i'w ffeindio i unrhywun sydd eisiau gwybod mwy.

I gloi, os ydi unrhywbeth yn y pecyn hwn yn sbardunno ymateb neu farn yr hoffech siarad efo ni ymhellac hamdano, plis cysylltwch a ni. Rydym wastad ar gael am sgwrs, boed hynny dros ebost neu ar Facebook/Instagram/Trydar. Hoffem hefyd gyfarfod a chi a clywed mwy am eich barn yn fyw. Felly plis cysylltwch, a gadewch  i ni drafod!

## 'Ydych chi'n gyfarwydd ar term 'tlodi bwyd'?'




Pan ofynwn os oedden nhw'n gyfarwydd a'r term 'tlodi bwyd' - ymatebodd 100% o gyfranogwyr **Ydw.**

Aeth y mwyafrif o gyfranogwyr, 62 allan o 94, ymlaen i ddisgrifio tlodi bwyd fel **'yr annallu i fforddio bwyd'**. Er hyn, ymatebodd eraill eu bod yn ansicr o sut i ateb y cwestiwn.

Rydym wedi diffinio'r term tlodi bwyd a'r term fwy eang ansicrwydd bwyd isod.

# Beth yw Tlodi Bwyd?

Tlodi bwyd yw anallu'r unigolion a teuluoedd i sicrhau deiet maethlon a buddiol. Gall tlodi bwyd effeithio rheiny sydd yn methu sicrhau bwyd o achos problemau economaidd, daearyddol neu yn seiliedig ar sgil.
Mae llawer yn dioddef o dlodi bwyd ar ffurf newyn. Gall rheiny sydd ddim yn profi newyn brofi camfaethiad.


Mae **'Tlodi Bwyd'** ag **'Ansicrwydd Bwyd'** yn gyfystyr a'u gilydd ac yn effeithio bron i **1 ym mhob 3 yn fyd-eang.**

# Y termau *'Tlodi Bwyd'* ag *'Ansicrwydd Bwyd'*

Mae'n well gan nifer o'r grwpiau rydym yn gweithio efo yn uniongyrchol yn ystod y prosiect y term 'Ansicrwydd Bwyd' gan ei fod yn cwmpasu mwy. Mae 'Ansicrwydd Bwyd' yn cyfro ystod llawer ehangach o broblemau, o poeni am cyrraedd diwedd y mis efo digon, i ddim bwyta digon o fwyd maethlon oherwydd diffyg gwybodaeth a sgiliau; o ddim efo mynediad at bwyd fforddadwy, i gael eich cyfeirio i banciau bwyd os ydech mewn crisis.

# 'Ydych chi'n credu bod tlodi bwyd yn bodoli yn eich ardal leol?

Mae 88 allan o'r 94 cyfrawr yn credu bod tlodi bwyd yn bodoli yn eu ardal lleol. Daw'r ymatebion yma yn bennaf o trefoedd ar draws Sir Y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam. Efo nifer o ymatebion o Gogledd Orllewin Cymru a Lloegr.




Rydym wedi dod o hyd i adroddiad o'r 'Institude For Sustainable Food' sydd yn darlunio y canran o oedolion sy'n profi 3 wahanol adran o tlodi bwyd ar draws Cymru.

Mae rhyw ffurf o tlodi bwyd yn bodoli ym mhob rhan o'r DU.

Mae'r 'Institute for Sustainable Food' ym Mhrifysgol Sheffield wedi creu map, efo cysgodi amrywiol i gynrychioli data wedi'w gasglu o ardaloedd yn y DU.

Maent yn defnyddio **tri haen o gysgodi,** mewn tair lliw sy'n cyflwyno:

**Y canran o oedolion sydd yn llwgu yng Nghymru.**


Mae hwn yn cynnwys rheiny oedd yn llwgu ond methu bwyta bwyd gan eu bod methu ei afforddio, neu ddim efo mynediad i fwyd yn ystod y mis diwethaf.

**Y canran o oedolion sydd mewn byd yn cael mynediad at fwyd yng Nghymru.**
Yn cynnwys rheiny sydd wedi ceisio cael cymorth yn ystod y mis diwethaf efo mynediad i fwyd, wedi lleihau eu prydau a bwydydd iach i lledu cyllideb tynn, neu nodon nhw eu bod wedi stryglo i gael mynediad at fwyd mewn rhyw ffordd. Mewn rhei ardaloedd mae'r cyfraddau mor uchel ag **28% o oedolion.**

**Y canran o oedolion sydd yn poeni am ansicrwydd bwyd yng Nghymru.**
Neu yn poeni am y gallu i gario mlaen i ddarparu bwyd digonol i'w teuluoedd. Gall y bobl ym a fod yn ymdopi ond gallant ddisgyn i ansicrwydd bwyd oherwydd creisis annisgwyl , neu diffyg sydyn o arian ar gyfer prynu bwyd.

**Mae'r map rhyngweithiol ar gael yma**

## Ar gyfartaledd, faint o bobl yn eich tyb chi sydd angen cefnogaeth bwyd ar hyn o bryd?




**Mae 35 allan o 94** o bobl yn credu bod **43%** o bobl angen cefnogaeth bwyd ar hyn o bryd, sy'n cyd-fynd ar cwestiwn blaenorol lle mae r mwyafrif o'r bobl yn ymwybodol bod ansicrwydd bwyd yn broblem yn eu hardal leol.

Nododd **2** o'n cyfranogwyr eu bod yn credu bod y canran yn agosach at **25%** gan mai dyma'r canran o blant yng Nghymru sydd yn derbyn prydau cinio am ddim ar hyn o bryd.

Mae adroddiadau swyddogol yn nodi bod oddeutu **10%** o'r boblogaeth angen cefnogaeth. Er hyn, mae nifer o fudiadau yn credu bod data y Llywodraeth yn anghywir. Medrwch ddarllen mwy am hyn isod.

Yn ôl *'Hungry for Change: fixing the failures in food'*, adroddiad a gyhoeddwyd ym Mis Mehefin 2021 gan y Pwyllgor Dewisol ar Fwyd, Tlodi, Iechyd a'r Amgylchedd. **amcangyfrifodd Asiantaeth Bwyd ac Amaeth y C.U. bod o ddeutu 2.2 milliwn o bobl yn y DU** yn diodde'n ddifrifol o ansicrwydd bwyd (h.y gyda mynediad cyfyng i fwyd oherwydd prinder arian neu adnoddau eraill). **Tan yn ddiweddar,** beth bynnag, **nid** yw'r Llywodraeth wedi casglu data ar y pwnc yma a felly **nid oes ganddynt ddarlun cyflawn o broblem ansicrwydd bwyd.**

- Sylwch ar y defnydd o'r gair **"difrifol"**. Fel mae'r "Sheffield's Institute for Sustainable Food" yn pwysleisio , mae profiadau amrywiol o'r rhai sy n wynebu newyn, sydd ddim yn cael ei gyfyngu i'r rhai hynny sy 'n diodde "ansicrwydd bwyd difrifol". Rhaid cynnwys y rhai sy'n poeni, yn ymdrechu,ac sydd o dro i dro heb ddigon i'w fwyta
- Y mae'n ffaith,gan nad yw'r Llywodraeth wedi casglu data, ni allwn gael darlun cyflawn o newyn yn y DU.

**Serch hynny,** mae mwy o ddata wedi cael ei gasglu gan "The Food Foundation" sy'n amcangyfrif bod **8.8%** o boblogaeth y DU yn 2022 yn dioddef ansicrwydd bwyd, sy'n crynhoi i **5.93 milliwn o bobl** (**gan gynnwys 4.7 miliwn o oedolion**). [Ffynhonnell]

Credwn fod hyn yn **nes** at y rhif cywir, ond yn dal i fod yn **anghywir.** Mae nifer o bobl yr ydym ni a'n partneriaid wedi siarad a nhw **wedi cyfaddef eu bod wedi dioddef o ansicrwydd bwyd,** ond fydden nhw **byth wedi defnyddio'r term yna** nac wedi edrych am gymorth.

## Sut gall profiad y bobl yma cael eu cynnwys yn amcangyfrifon swyddogol?

Mae CEO Well-Fed, Robbie Davidson, un o'n partneriaid wedi bod yn gweithio o gwmpas tlodi bwyd ers dros ddegawd. Mae Robbie yn gweithio'n uniongyrchol efo pobl sydd yn stryglo, yn ysgrifennu am eu canfodion ac yn mynd a'u canfodion i'r senedd.

Mae'n ancamgyfrif bod y nifer o bobl sydd yn byw trwy neu sydd wedi profi tlodi bwyd yn y flwyddyn diwethaf yn **fwy na phoblogaeth cyfunol Cymru a'r Alban.** [Ffynhonnell]


**Os ydym yn defnyddio ei amcangyfrifon fedren ni gyfrifo:**

- Poblogaeth Cymru yw **3.19 miliwn**
- Poblogaeth yr Alban yw **5.51 miliwn**
- Ma hwn yn gyfanswm o **8.7 miliwn**
- Poblogaeth y DU ydi **68.5 miliwn**

**(68.5 / 8.7) x 100 = 12.7**

**12.7% = (amcangyfrif) 8.69 miliwn o bobl yn byw mewn ansicrwydd bwyd**

## Faint o weithiau ychdych chi'n meddwl bydd person mewn tlodi bwyd yn defnyddio'r banc bwyd mewn blwyddyn?




Roedd canran mawr o gyfranogwyr yn credu gall person ddefnyddio banc bwyd yn **wythnosol/52 gwaith y flwyddyn**, er bod y gwir yn bell o hyn.

Gall dinesyddion y DU ddefnyddio banc bwyd 3 gwaith dros gyfnod o 6 mis, **felly 6 gwaith y flwyddyn.**


Mae nifer o bobl rydym yn gweithio efo wedi'w syfrdannu i ddysgu hyn. Er rydym yn deall bod achosion ble mae pobl yn gallu cael cefnogaeth os oes angen, mae'r canllawiau yn dweud bod cyfyngiedig ar faint o cyfeiriadau gall person ei derbyn.

Er mwyn cael mynd i banc fwyd, rhaid i'r unigolyn cael eu cyfeirio gan person profesiynol megis:

- Gweithiwr cymdeithasol
- Swyddog Cyngor ar Bopeth
- Cwnselydd
- Gwas sifil
- Doctor Teuluol

A **rhaid iddynt cyrraedd safon penodol** i gael eu cyfeirio. [Ffynhonnell/darllen pellach]
Ydech chi'n meddwl bod hyn yn gwaith safonol tuag at curo ansicrwydd bwyd?

## Beth ydech chi'n gredu y gall y llywodraeth, cyrff lleol neu mudiadau cymunedol ei wenud am dlodi bwyd?




Cafwyd nifer o atebion manwl i’r cwestiwn yma, rydym wedi’w gosod mewn categoriau cyffredinol er mwyn dadansoddi yr ymatebion. Yr awgrymiad mwyaf poblogaidd oedd bod angen **‘Opsiynau gwell ar gyfer UC/budd-daliadau/cyflogaeth’.** Y 3 ymateb mwyaf poblogaidd ar ol hwn oedd:

- **Trethau uwch** ar aelodau mwyaf cyfeoethog y gymdeithas a **lleihau treth cyhoeddus.**
- Addysgu a gwella ymwybyddiaeth o **newidiadau yn eu ffordd o fyw** ag **agwedd pobl tuag at fwyd**
- **Cynyddu cronfeydd** ar gyfer banciau bwyd a opsiynau cefnogaeth bwyd arall

Mae cymysgedd dda o ymatebion sy’n cwmpasu addysg,ariannu a hysidro anghenion yr unigolyn. Ac er fod lle i drafod yr ateb “cywir”, yr ydym isod yn amlinellu beth allai ddigwydd pe byddai’r Llywodraeth yn cefnogi rhai o’r cynlluniau, a beth mwy y gallant ei wneud sydd ddim yn cael cefnogaeth ar hyn o bryd.

**Gallai ymyraeth rhesymol y Llywodraeth edrych fel hyn:**

**Uwch-sgilio:**

- Dywed Pwyllgor Dewisol ar Fwyd,Tlodi, Iechyd a’r Amgylchedd y dylai ‘ Llywodraeth anelu **i greu negeseuon iechyd cyhoeddus clir yn ogystal a diwygio mesurau bwyd cyhoeddus** fel talebau *“Healthy Start”,* prydau bwyd ysgol rhad ac am ddim a rhaglenni newyn gwyliau

- Credant hefyd bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol mewn **addysgu dinasyddion am sgiliau** maeth, gan nodi y dylai ysgolion ac awdurdodau gael yr adnoddau priodol i wneud hyn. [Ffynhonnell]
- Yn ogystal a hyn, gallai Gwariant Cymdeithasol y Llywodraeth ariannu gwasanaethau y drydydd sector i addysgu dinasyddion yn well am sgiliau fel cyllidebu, coginio, maeth a chyrsiau addysgol eraill i roi pwer i ddinasyddion

### Ymchwil a chasglu gwybodaeth:

- Mar nifer o'r bobl yr ydym wedi cysylltu a nhw wedi awgrymu y dylai Llywodraethau, cynghorau, ac awdurdodau lleol gasglu data gan y cyhoedd am eu sefyllfa, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o faint o bobl sy'n diodde o dlodi bwyd a beth yw dwyster y sefyllfa.
- Gellid casglu data drwy holiadur sy'n cael ei **gwblhau gan bob dinesydd** - rhywbeth yn **debyg i'r cyfrifiad**. Mae Llywodraeth Taiwan wedi gweithredu app/system we lle y gallant gasglu data a chymhellu dinasyddion i bleidleisio ar agweddau o ddeddfwriaeth yn wythnosol
- Gallai'r DU ariannu prosiect tebyg gyda'r bwriad o gynhellu dinasyddion i **gymeryd mwy o ran mewn penderfyniadau democrataidd ac mewn creu polisiau**, yn ogystal ac i gasglu data am sefyllfa unigolion. [Ffynhonnell 1 /Ffynhonnell 2 /Ffynhonnell 3]

### Gwariant Cyhoeddus a Llesiannau.

- Er mwyn rhoi adnoddau digonol i'r awdurdodau hyn, **mae'n rhaid i'r Llywodraeth gynyddu gwariant cymdeithasol**. Ceir y graddfeydd uchaf o wariant cymdeithasol yn Norwy, lle y mae graddfeydd hunan laddiad oherwydd colli gwaith yr isaf drwy'r byd i gyd, gan fod system llesiant briodol yn bodoli. [Ffynhonnell]
- **Nid ydym yn credu mewn systemau llesiant "cash first", heb i anghenion sylfaenol yr unigolyn gael eu cyfarfod.** Os yw person sy n derbyn Credyd Cynhwysol yn gorfod dewis rhwng gwario ar rent, biliau neu fwyd, bydd yn dibynnu ar wasanaethau bwyd sydd ddim yn "fit for purpose" [Ffynhonnell]
- Mae **UBI** - Universal Basic Income yn fenter sy n rhoi arian i bob person o fewn y wlad yn rhad ac am ddim [ta waeth pa incwm arall sydd ganddynt} Yn y DU mae taliadau o £40-£60 y mis wedi eu cynnig. Byddai UBI yn sicrhau bod **pob dinesydd Prydeinig** yn derbyn **digon** i **sicrhau sylfaen safonol byw.** [Ffynhonnell +Darllen pellach] Un **feirniadaeth** o hyn yw y bydd yn ddrud ac y byddai'n cynnwys rhoi arian i rai sydd a digon yn barod. Mae Cymru yn cychwyn cynllun o grwp o 500 fydd yn derbyn £19,200 y flwyddyn, neu £1,600 y mis am y tair mlynedd nesaf. Bydd y dinasyddion sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn gyn-ofalwyr 18-25 mlwydd oed. [Ffynhonnell/darllen pellach]
- Dywed y "New Economics Foundation" y gellid gweithredu'r **UBI drwy "roi pawb yn y wlad ar gredyd cynhwysol"** gan chwyddo incwm unrhyw ddinesydd os yw'n disgyn o dan safon gosodedig. Ni fyddai'n rhaid i ddinesydd neidio drwy ddoleni biwrocrataidd er mwyn derbyn gwasanaethau llesiant. Hefyd ni fyddai raid iddynt aros am chwe wythnos cyn cofrestru. (Ffynhonnell)
- Os ddim UBI, mae'n bosib creu cynlluniau lles lluosog yn hytrach na 'r cynllun Credid Cynhwysol Safonedig. Byddai hyn yn sicrhauy byddai pawb yn derbyn gwasanaeth


lles wedi ei deilwra iw hanghenion unigol, ac y byddai'n gweddu iw steil byw au llafur di-dal.
- **Talebau bwyd a thanwydd yn hytrach nac arian parod.** Byddai hyn yn sicrhauy byddai cyfran yn cael ei wario ar fwyd, byddai hyn o gymorth i bobl sy'n methu cyllido'n effeithiol. [Serch hynny,dylai pob un or awgrymiadau hyn weithio law yn llaw gyda cynlluniau gwariant cymdeithasol eraill i wella gwybodaeth, gallu a sgiliau er mwyn creu newid cynaladwy.]
- **Cael gwared o'r rhestr aros 6 wythnos** am lesiant er mwyn torri i lawr ar y nifer o bobl sy'n gorfod cael benthygiadau eraill yn ystod y cyfnod - ac felly n disgyn i gylch benthyg di-ddiwedd.
- Sut gallwn dalu am hyn? "Trethu'r cyfoethog" - mae'r Patriotic Millionaires - grwp o unigolion cefnog wedi sefydlu corff sy'n annog Llywodraethau yr UD ar DU i roi trethau mwy i'r dosbarth uwch nac i'r dosbarth canol ac is."Don't tax the poor and the middle classes so heavily. Tax us instead."

**GWERTHUSO rhai camau mae'r Llywodraeth wedi'w cymeryd:**

- Cynyddu **isafswm cyflog cenedlaethol** {o £8.36 i £9.18 i bobl 21-22 oed, ac o £8.91 i £9.50 i bobl 23+] o Ebrill 1af 2022.
- Y "Soft Drinks Industry Levy"[sugary drinks tax} yn lleihau defnydd o siwgr afiacha chreu incwmi dalu am glybiau brecwast i ysgolion (pan fydd cost rhywbeth mae bobl yn arfer ei brynu yn cael ei gynyddu, bydd costau cyffredinol yn cynyddu. Ein dymuniad yw annog dewis ac amrywiaethyn neiet pawb yn rheolaidd- **nid yw rhoi treth ar rhywbeth sy'n "treat" yn helpu - mae' n golygu cost ychwanegol**.) (Mae clybiau brecwast yn gweithio yn yr un ffordd ac elusennau, h.y. Mae'n blastar dros broblem sy'n bodoli oherwydd diffyg cyllid Llywodraethol)
- Gwarchod plant rhag hysbysebau a marchnata bwyd"junk" **(Just Eat a Deliveroo yn cael ei farchnata yn gyson . A ydyn ni wir yn credu nad yw plant yn gweld hysbysebion bwyd "junk.")**
- Gwnaethpwyd addewid diweddar i ariannu prosiectau i dargedu newyn gwyliau i blant sy'n byw mewn cartrefi incwm-isel{gyda diolch i Marcus Rasgford am ddod ar broblem hon i olau dydd a mynd a hi o flaen y Senedd. **Pleidleisiodd 321 o Aelodau Seneddol yn erbyn y cynnig i roi prydau bwyd i blant drwy'r gwyliau.** Pleidleisiodd 261 o blaid y cynnig. Fedrech chi weld y ffigyrau yma.

Mae llawer o ymdrechion y Llywodraeth i leihau gor-dewrdra ac i hybu bwyta'n iach wedi methu, ac yn ol y Pwyllgor Dewisol ar Fwyd, Tlodi, Iechyd a'r Amgylchedd, **mae'r rhifau wedi parhau i gynyddu.** [Ffynhonnell/darllen pellach]

Os gwelwch yn dda, disgrifiwch y math o berson y credwch chi sy’n byw mwen tlodi  bwyd/ *Pwy* sy’n cael ei effeithio gan dlodi bwyd ?




Rydym wedi cynnwys y cwestiwn hwn er mwyn mesur os yw canfyddiadau’r cyhoedd am ba fath o bobl sy’n byw mewn tlodi bwyd yn cyfateb i ystadegau’r grwp o fewn cymdeithas sydd fwyaf tebygol i ddiodde tlodi bwyd.

Nododd **37** o’r cyfranogwyr y gall **unrhywun** fyw mewn/ cael ei effeithio gan dlodi bwyd. Yr ymatebion nesaf oedd: pobl yn byw mewn **ardaloedd incwm isel,**teuluoedd yn byw ar **fudd-daliadau**, ar rhai hynny sy’n **ddi-waith.**

Nid yw’r un o’r rhain yr “ateb cywir”, gan yn dechnegol does dim “ateb cywir” am bwy all gael eu heffeithio gan dlodi bwyd. Serch hynny, nid yw tlodi bwyd, gan gynnwys **deiet di-faeth** a **mynediad i fwyd ac adnoddau derbynniol yn gyfyngedig** i’r rhai hynny sydd ar incwm isel, ond mae’r bobl hyn yn cael eu heffeithio mewn modd anghymesur.


Mae **oedolion, plant a’r henoed** sy’n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn llawer mwy tebygol o fod yn or-dew neu o ddioddef o iechyd gwael o ganlyniad i ddeiet. **Mae anghydraddoldebau iechyd wedi ehangu ym Mhrydain oherwydd hyn.**

Gall **lleoliad Daearyddol** effeithio mynediad unigolion i fwyd fforddadwy,maethlon ac amrywiol. Mae llawer o bobl sy’n byw mewn ardaloedd gwledig yn ei chael yn anodd i gael mynediad i arcgfarchnadoedd mawr, marchnadau, pantri cymunedol, banciau bwyd neu unrhyw le arall y gallwn gael gafael ar fwyd da, maethlon a fforddadwy. [Ffynhonnell/darllen pellach]

Eleni,  mae **pobl sy'n byw gydag anabledd** ar gyfartaledd **5 gwaith yn fwy tebygol** i ddioddef o ansicrwydd bwyd na pobl sydd heb anabledd. [Ffynhonnell/darllen pellach]

## Ydech chi 'n cysylltu'r term "prydau ysgol rhad ac am ddim" gyda tlodi bwyd?

Dywedodd **46.2%** eu **bod yn** cysylltu prydau ysgol rhad ac am ddim gyda pobl sy'n byw mewn tlodi. Daeth nifer o'r ymatebion o brofiadau personol. Roedd gan y rhai atebodd **"Na"** resymau tebyg yn ogystal a nifer ohonynt yn nodi na ddylent gael eu cysylltu gyda tlodi gan y dylai prydau ysgol fod yn rhad ac am ddim i bob plentyn.




Tra nad yw tlodi yn uniongyrchol yn un o'r meini prawf ar gyfer cael pryd bwyd rhad ac am ddim yn yr ysgol, ar hyn o bryd, mae nifer o deuluoedd sy'n dibynnu ar eu plant yn cael eu prif bryd poeth o fwyd yn yr ysgol am ddim, gan ei fod yn ysgafnhau peth ar y dasg o brynnu bwyd..Gall hyn ynddo'i hun olygu eu bod yn osgoi tlodi.

Mae **tlodi plant** wedi **codi o 500,000 ers 2021**, o 3.6 miliwn o blant i **4.1 miliwn**. Yn ol Alison Garnham -  Chief Executive of the Child Poverty Action Group [CPAG] gall y ffigwr yma godi i dros 5 miliwn erbyn diwedd 2022.

Mae nifer **tlodi 'mewn-gwaith'** hefyd wedi cynyddu mewn modd tebyg.

**Mae 7 plentyn o bob 10 sy'n byw mewn tlodi yn byw gydag o leiaf un rhiant sydd mewn gwaith.**

Os yw'r rhieni mewn-gwaith, mae'n bosib **nad** yw eu plant yn gymwys i gael bwyd ysgol rhad ac am ddim **sy'n seiliedig ar dderbyn budd-daliadau.** [Ffynhonnell/darllen pellach]

Ar hyn o bryd , mae **Senedd Cymru** wrthi yn creu strwythur i sicrhau y bydd **pob plentyn oed ysgol gynradd yn cael yr hawl i brydau ysgol rhad ac am ddim erbyn 2024.** [Ffynhonnell/darllen pellach]

Os yw plant yn llwyddo i gael mynediad i brydau ysgol rhad ac am ddim, maent yn iawn tra yn yr ysgol, ond beth sy'n digwydd pan nad ydynt yn yr ysgol? Gwnaethpwyd addewid diweddar i ariannu prosiectau i dargedu newyn gwyliau i blant sy'n byw mewn cartrefi

incwm-isel{gyda diolch i Marcus Rasgford am ddod ar broblem hon i olau dydd a mynd a hi o flaen y Senedd. **Pleidleisiodd 321 o Aelodau Seneddol yn erbyn y cynnig i roi prydau bwyd i blant drwy'r gwyliau. Pleidleisiodd 261 o blaid y cynnig.** Roedd 64 aelod yn **absennol** ac yn methu pleidleisio. Fedrech weld y ffigyrau yma.

## Pam fod trwsio y system fwyd mor bwysig?

**"The health of the population, and the health of the planet, is at risk"** Mae biliynnau yn cael eu gwario yn flynyddol gan y GIC i drin nifer o achosion o or-dewdra oherwydd deiet, afiechydon y galon,canser, clefyd siwgwr, afiechydon arennau ayyb. Mae anhwylderau sy'n gysylltiedig a deiet yn effeithio pob haen o'r boblogaeth, ond mae'n effeithio ardaloedd di-freintiedig fwy byth. Drwy hyn mae'n creu a chynnal **anghydraddoldebau iechyd**.

"The gradient in healthy life expectancy is steeper than that of life expectancy. It means that people in more deprived areas spend more of their shorter lives in ill health than those in less deprived areas." [Ffynhonnell]

Mae gwerthwyr bwyd, cwmniau bwyd mawr, gwneuthurwyr a'r sector gwasanethau bwyd yn creu galw uchel ar gyfer cynnyrch llai iachus neu bwyd wedi'w or-brosesu. Nid yn unig mae hyn yn effeithio iechyd cyhoeddus, ond mae'n cael effaith negyddol ar yr ymdrech i gynhyrchu bwyd mewn ffordd amgylcheddol a cynaliadwy. Mae'r galw ar ffermwyr i gynhyrchu bwyd yn rhad yn effeithio ar ac yn bygwth bioamrywiaeth ag ansawdd tir fferm. [Ffynhonnell]